# Teulu'r Mynydd

J. Wynne Lewis

Bu adroddiad yn y *North Wales Gazette* ar y chweched o Ragfyr 1821 am ŵyl yn Amlwch a drefnwyd ym mis Tachwedd i ddathlu geni mab ac etifedd y Cynrol Hughes o ystâd Kinmel. Gwelwyd fflagiau ar longau yn yr harbwr, ac ar Fynydd Parys cafwyd cyfres o gerrig saethu *(rock cannons)* gan y gweithwyr copr. Tyllau oedd y rhain wedi eu drilio mewn creigiau a'u llenwi â phowdwr gwn o dan gaead o gerrig mâl. Fe'u taniwyd un ar ôl y llall i achosi sŵn a chymylau lliwgar – arferiad a oedd i ddod yn boblogaidd fel modd i ddathlu yn ardaloedd y chwareli yng Ngwynedd. Rhannwyd bwyd a diod i'r trefolion ac i denantiaid a gweision Llys Dulas a bu cynnau coelcerthi. Yr oedd teulu a ffrindiau'r Cyrnol yn dathlu yn nhafarn Tŷ Mawr (Dinorben Arms).

Cafwyd adroddiadau tebyg yn y papur wythnos ynghynt, yn disgrifio miri yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru gyda thenantiaid Ystâd Kinmel yn dathlu, a'r teulu a'r boneddigion yn cynnal gwleddoedd emosiynol yn y *Bee*, Abergele a'r *White Lion*, Llanelwy. Gymaint mwy oedd y llawenydd oherwydd bod y Cyrnol yn hanner cant a phedair oed ac yntau a'i wraig, Charlotte, wedi colli eu mab cyntaf yn 1814, yn wyth oed.

Rhaid i ni fynd yn ôl i 1765 i ddeall y dathlu eang. Y pryd hynny y priododd y Parchedig Edward Hughes, M.A. curad Trefdraeth, (mab Hugh Hughes, ysgrifennydd diwyd Dr. Edward Wynne, canghellor enwog a galluog Esgobaeth Henffordd) â Mary Lewis, merch ei reithor ac etifeddes Ystâd Llys Dulas. Llys hen deulu oedd hwn, teulu a honnai, yn oes y Tuduriaid, Gunedda a Beli Mawr ymhlith





*Uchod: Y Parchedig Edward Hughes.*
*Isod: Mary Hughes, gwraig y Parchedig Edward Hughes*

*Uchod: William Lewis Hughes, Yr Arglwydd Dinorben.*
*Isod: Hugh Robert Hughes (H.R.H.) nai yr Arglwydd Dinorben*





eu cyndadau. Ond pwysicach i Edward oedd bod y stad yn cynnwys safle 'Cwmni Mwynglawdd Parys' ar y Mynydd Copr! Fe enillodd y cwmni hwnnw elw mawr i deulu Edward Hughes ac i'r twrnai, a'r asiant tir, Thomas Williams, a gydweithiai â nhw, yn enwedig yn y cyfnod mwyaf cynhyrchiol tua diwedd y ddeunawfed ganrif a chyn i'r ddau farw erbyn 1815. Bu ehangu ar yr adrannau mwyndoddi a chynhyrchu nwyddau o gopr ac efydd ar gyfer llyngesau Prydain a gwledydd eraill. Ehangwyd y fasnach gaethweision a diwydiannau eraill mewn safleoedd yn Nhreffynnon, Ravenhead (o dan Michael, brawd Edward) ac Abertawe. Hynny wrth i Thomas Williams, 'Twm Chwarae Teg', ddatblygu ei gysylltiadau a'i ddylanwadau eang ym myd copr.

Gallai'r mwyndoddfeydd ar Fynydd Parys drin y mwyn copr i gyd ar y mynydd, ynghyd â mwyn o fwyngloddiau eraill yng Nghymru, a mwyn tramor hefyd am gyfnod, cyn i'r agosrwydd at feysydd glo roi'r fantais i fwyndoddfeydd mewn llefydd fel Abertawe. Bu'r degawdau cynnar yn ddigon i roi adnoddau i Thomas Williams ac Edward Hughes (a theulu Plas Newydd) i gefnogi elusennau a chodi adeiladau cyhoeddus. Yn 1786 fe brynodd Edward Hen Neuadd Kinmel a'i hystadau, a oedd yn agosach at ei safleoedd diwydiannol yn y Gogledd-ddwyrain. Symudodd i Neuadd Newydd Kinmel, ger Abergele, ar droad y ganrif a phrynu ychwaneg o dir yno, ac ystâd Parciau ac eraill ym Môn. Cyn iddo farw yn 1815 buddsoddodd i wella Llys ac ystâd Dulas a hen eglwys y Santes Gwenllwyfo, sydd dan ddrain a mieri erbyn heddiw. Ond ym mynwent Eglwys Sant Siôr y claddwyd ef a gwelir ei gofarbais yn yr eglwys honno.

*(i'w barhau)*

(codwyd o "yr Arwydd")

# RHODDION

John Roberts Williams – £100; J.E. Davies, Morfa Bychan, Porthmadog – £3; John Roberts, Y Groeslon – £3; J. Jenkins, Llandysul – £3; Mrs E.G. Griffith – £3; Llio Rhydderch, Marianglas, Ynys Môn – £8; E. Jones, Llandudno – £3; G. Vaughan Jones, Bangor – £5; Christopher W. Jones, Llanllyfni – £10; Cyril Jones, Mynytho – £8; Elwyn a Mair Hughes, Llanrhaeadr, Dinbych – £3; Bethan W. Jones, Llangefni – £3; Evan J. Griffith, Llangwnadl, Pwllheli – £3; T. Llew Jones – £2.50c; Mair Roberts – £2.50c; Emrys Evans – £2.50c; Glyn Jenkins, Henffordd – £5.50; J.A. Davies, Porthaethwy – £5; Olwen Llywelyn – £8; R. Tegid Jones, Rhos – £2.50; Helga Martin – £3.00; A.E. Williams, Trawsfynydd – £2.50c; Phylip Jones, Resolfen - £2.50; Richard Williams, Wolverhampton – £2.50; T. Ellis, Rhiwabon – £3; O.H. Morris, Dyffryn Ardudwy – £5; Beti Williams, Caerdydd – 50c; Glyn T. Michell, Talybont – £77.50; Mair Williams, Amlwch – £2.50c; Morfudd Owen – 50c; Elwyn Jones, Llandudno – £2.50; Herbert Hughes, Aberhonddu – £3; Dewi M. Lloyd, Aberteifi – 50c; A.C. Griffiths, Llansadwrn – 50c; Arwyn Thomas, Casnewydd – £3; J.E. Davies, Bangor – £3; W. Hughes, Talwrn – 50c; H.A. Williams, Clynnogfawr – £3; Gwen Roberts, Llanuwchllyn – 50c; Gerallt Jones, Maesteg – £8; N. Owen, Corwen – 50c; I. Pilling, Llanfairfechan – £5.50; Anwen Pierce, Bow Street – £5.50; P.C. de la Hage – £4; Ted Huws, Bodedern – £10; Elwyn Hughes, Bethel – £5; W. Dyfrig Davies, Llandeilo – £3; Dafydd Huw, Llanrwst – £3.

## Dalier Sylw

*Bydd ffurflen danysgrifio tu mewn i'r rhifyn hwn. Beth am i bob un ohonoch ymorol am un aelod newydd i fod yn perthyn i'r Gymdeithas? Beth am roi tanysgrifiad blwyddyn yn anrheg Nadolig i un o'ch cyfeillion?*

*Bydd copi o'r rhifyn hwn ar gael yn rhad ac am ddim i bob tanysgrifiad a fydd yn cael ei roi fel anrheg Nadolig.*

*Cysylltwch â'r Golygydd i gael taflen gyfarch liwgar i gydfynd â'r rhifyn cyfredol.*